

# Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg: Ymgynghoriad

## Eich manylion cyswllt

Enw:	Emily Cole
A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?	Ar ran sefydliad
Sefydliad (a'ch rôl os yw'n berthnasol):	Mentrau Iaith Cymru
Rhif Ffôn / Symudol:	01443 493715
E-bost:	post@mentrauiath.org
A hoffech gael eich cynnwys yng nghronfa ddata cysylltiadau'r Pwyllgor ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol?	Hoffwn  9a Y Stryd Fawr, Pontypridd, CF37 1QJ

## Argaeledd ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno dros dro i gynnal sesiynau tystiolaeth lafar ar y dyddiadau isod. Noder fod amser y Pwyllgor yn brin ac ni fydd yn gallu gwahodd pawb sy'n dangos diddordeb i ddod i sesiwn.

A fydddech yn fodlon dod i gyfarfod Pwyllgor i roi tystiolaeth lafar?	Byddwn	Na fyddwn
---	--------	-----------

Dyddiad	Ar gael
Dydd Iau 2 Gorffennaf (9.30 - 12.00)	
Dydd Mercher 8 Gorffennaf (9.30 - 12.00)	
Dydd Iau 16 Gorffennaf (9.30 - 12.00)	



## Datgelu gwybodaeth

Mae [polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth](#) ar gael. Gofalwch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

## Cyflwyno tystiolaeth

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch ffurflen sylwadau at: [SeneddPPIA@cynulliad.cymru](mailto:SeneddPPIA@cynulliad.cymru).

Fel arall, gallwch anfon y ffurflen at:

Sarah Bartlett, Dirprwy Clerc  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd, CF99 1NA



# Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg: Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cwestiwn 1

Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru?

Teimlwn nad ydyn nhw'n cyfrannu'n ddigonol. Petai'r CSCAau yn cyfrannu'n ddigonol fe fyddai'r targedau a nodir yn y strategaeth yn debygol o gael eu cyflawni. Yn anffodus nid dyma'r achos ac mewn nifer o ardaloedd, nid oes cynnydd digonol wedi bod yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (gyda dim cynnydd o gwbl mewn rhai ardaloedd).

Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu ddigon, sut y gellir datrys hyn?

Mae angen i Awdurdodau Lleol rannu a pherchenogi'r un weledigaeth â'r Llywodraeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â pherchenogi a gweithio tuag at dargedau uchelgeisiol a phenodol: ar un llaw mae gan Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth genedlaethol ar gyfer addysg Gymraeg, â thargedau pendant dros dymor hir, ond ar y llaw arall mae'r CSCAau yn gofyn am weledigaeth a nodau pob Awdurdod Lleol *unigol* ar gyfer eu gweledigaeth nhw. O'r cychwyn felly nid oes sicrwydd bod y Llywodraeth a'r Awdurdodau Lleol yn rhannu'r un weledigaeth ac felly nid oes sicrwydd bod cynlluniau a gweledigaeth pob awdurdod lleol yn ddigon pellgyrhaeddol er mwyn sicrhau twf sylweddol mewn addysg Gymraeg dros dymor hir.

Credwn fod angen cryfhau polisïau addysg pob awdurdod lleol trwy rannu, ac ymrwmo i weledigaeth uchelgeisiol i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn sylweddol. Mae cyfundrefnau Gwynedd ac Ynys Môn yn enghreifftiau o arfer da y gellid ehangu i ardaloedd eraill.

Wrth gynllunio addysg Gymraeg mae angen datblygu systemau safonol o fesur y galw ar draws pob Awdurdod Lleol, neu o leiaf o fewn ardaloedd sy'n debyg i'w gilydd yn ieithyddol. Ar hyn o bryd mae'r anghysondeb yn nulliau pob Awdurdod Lleol yn arwain at anghysondeb o safbwynt mesur y galw a chynllunio addysg Gymraeg. Mae hyn hefyd yn wir am fesur y galw ar gyfer darpariaeth gofal plant sydd yn hollol berthnasol i ddarpariaeth addysg. Rhaid cwestiynu hefyd yr egwyddor o fesur y galw ei hun: nid yw'n bosib i weledigaeth a thargedau uchelgeisiol cenedlaethol gael eu gyrru ymlaen ar lefel lleol os yw datblygiadau yn dibynnu ar fesur y galw yn lleol.

Mae angen buddsoddiad digonol yn y gweithlu, ac i gynllunio'r gweithlu, er mwyn cwrdd â'r angen cynyddol am athrawon ac aelodau staff eraill.

## Cwestiwn 2

Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)?

Nid yw'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol yn ddigonol ar hyn o bryd am nad yw'r targedau yn cael eu gorfodi i fod yn fwy uchelgeisiol a phell gyrhaeddol. Mae'n rhy hawdd ar hyn o bryd i rai Awdurdodau lleol trwy eu cynlluniau strategol ddibynnu'n llwyr ar ateb y galw heb fod wedi ymgynghori nac ymrwymo'n gyflawn i dwf mewn addysg Gymraeg. Mae ateb y galw yn faes cymhleth oherwydd bod safon adeilad, safon ysgol, pellter darpariaeth ac ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd yn cyfrannu at ymateb cadarnhaol neu negyddol am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Heb wybodaeth gynhwysfawr a chynllun clir, nid yw rhieni yn teimlo'n hyderus yn ateb cwestiynau sydd â goblygiadau ehangach iddynt. Oherwydd y prinder 'galw' cyhoeddus, mae'n rhy hawdd i awdurdodau lleol guddio y tu ôl i'r diffyg.

Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau, neu na allant wneud hynny, sut y gellir datrys hyn?

Trwy osod targedau mwy pell gyrhaeddol ymarferol i awdurdodau e.e. amserlen bendant o gyfnod sefydlu ysgolion dwy ffrwd hyd amser eu newid yn ysgolion cyfrwng Cymraeg; gosod targedau twf mwy uchelgeisiol; gofyn am ymchwil trylwyr a chynhwysfawr am safon adeiladau, pellter darpariaethau, ymwybyddiaeth o fanteision bod yn gwbl ddwyieithog, safonau ysgolion a chynlluniau cadarn i ymateb i'r canfyddiadau sy'n gosod eu datrysiad yn flaenoriaeth o fewn yr awdurdodau.

## Cwestiwn 3

Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn)?

Nid yw'r targedau yn ddigon penodol ac uchelgeisiol.

Nid oes gofynion digon penodol ar gyfer tyfu safon darpariaethau addysg, eu lleoliadau, eu hargaeledd, eu hadeiladwaith na'u niferoedd

Mae cynlluniau presennol yn ymdebygu'n fwy i adroddiadau o'r hyn sy'n bodoli yn hytrach na chynlluniau twf gwirioneddol.

Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?

Dylid sgrwtineiddio, herio a gwrthod cynlluniau sydd ddim yn cynllunio ar gyfer twf yn ddigonol.

Dylid gorfodi cydymffurfiaeth â'r targedau a'r cynlluniau fydd yn cael eu gosod.

Dylid gosod targedau penodol ar gyfer gwelliant a thwf mewn safon darpariaethau addysg, eu lleoliadau, eu hargaeledd, eu hadeiladwaith a'u niferoedd.

Dylid gosod targed penodol i droi darpariaethau dwy ffrwd a dwyieithog yn ddarpariaethau addysg cyfrwng Cymraeg o fewn cyfnod penodol i'w sefydlu.

## Cwestiwn 4

Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisiau perthnasol eraill\*?

(\*er enghraifft, polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi – Iaith Fyw: iaith byw; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio)?

Mae angen gwell rhyngweithio a synergedd rhwng yr holl bolisiau sy'n ymwneud ag addysg a'r Gymraeg. Yn gyffredinol mae angen i'r iaith Gymraeg gael ei phrif-ffrydio ar draws holl feysydd polisi er mwyn mabwysiadu dulliau holistaidd o hyrwyddo'r Gymraeg a chynllunio ar gyfer twf yn y nifer sy'n medru siarad yr iaith a'i defnyddio.

O safbwynt Strategaeth y Gymraeg *Iaith Fyw: Iaith Byw*, ni theimlwn fod y CSCAau yn cyfrannu'n ddigonol at gyrraedd y nod o weld y Gymraeg yn ffynnu a chynyddu'r defnydd ohoni yn y Gymuned. Mae'r meysydd strategol "*plant a phobl ifanc*" ac "*y gymuned*" yn pwysleisio pwysigrwydd a dyhead Llywodraeth Cymraeg i weld mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau. Ceir bron yr un weledigaeth yn strategaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (nod strategol 6) ond hyd yn hyn nid oes digon o synergedd rhwng y ddwy strategaeth er bod lle amlwg i'r CSCAau, trwy eu gweithredu, cyfrannu at wireddu'r nod cyffredin o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Maes strategol arall y gall y CSCAau gyfrannu at ei wireddu yw "*Y Gweithle*", gyda'r maes addysg – o'r cyfnod Sylfaen i'r sector ôl 16 – yn faes amlwg y gellid ei dargedu ar gyfer twf yn y nifer o bobl (nid o reidrwydd athrawon yn unig) sydd yn medru'r Gymraeg ac yn ei defnyddio yn eu gwaith, bydd yn ei dro yn hwyluso'r broses recriwtio staff sydd yn medru'r Gymraeg, sef anhawster y mae sefydliadau addysg yn ei brofi mewn nifer o ardaloedd.

Mae cynllun Dechrau'n Deg yn un clodwiw ond mae yna dal diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sawl ardal ac mae peryg bod y llwybr at addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei danseilio a'i gymylu gan arwain at lai o blant yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg.

Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?

Dylid sicrhau bod darpariaethau Dechrau'n Deg ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cymunedau gyda llwybrau clir at lwybr addysg cyfrwng Cymraeg. Mae peryg i'r diffyg ieithyddol mewn darpariaethau Dechrau'n Deg mewn rhai ardaloedd difreintiedig megis Rhondda Cynon Taf, lle mae angen i'r cynllun, danseilio hwylustod, y galw a nifer trosglwyddiad plant i addysg cyfrwng Cymraeg.

O ran addysg ôl 16, heb y partneriaid allanol ni fyddai AS2.2, AS2.6, AS2.1, AS3.2, AS3.7 o'r strategaeth yn cael eu cyflawni. Rhaid gosod amlinelliad a thargedau clir am gyraeddiadau yn y maes hwn

Mae'n fater o bwys mawr i'r laith Gymraeg sicrhau gwelliant a thwf yn y ddau grŵp oed anstatudol yma, dechrau a diwedd y daith addysg. Gyda thoriadau mewn trafndiaeth yn debygol o'u taro'n fwy nag eraill, mae mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg mewn peryg o ddiodef cwmp yn hytrach na thwf. Oherwydd hyn, mae'n hanfodol gosod canllawiau a thargedau cadarn er mwyn sicrhau mynediad agored cwbl gyfartal i ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg trwy ddiwygio mesurau teithio ac addysg.

## Cwestiwn 5

Yn eich barn chi, a yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan gynnwys er enghraifft, disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel?

Yn anffodus nid ydym yn teimlo bod y CSCAau yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan fod rhai disgyblion o hyd nad ydynt yn cael lle yn yr Ysgolion o'u dewis, neu sy'n gorfod teithio yn bell, weithiau allan o'u siroedd, er mwyn mynychu Ysgol Gymraeg. Mae hyn yn wir am blant bach sydd ar fin dechrau eu taith ym myd addysg, a hefyd am blant hŷn sydd yn derbyn addysg Gymraeg yn barod ac yn ansicr ynglŷn â'u dilyniant i'r Ysgol Uwchradd a thu hwnt.

Os ydych o'r farn nad yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg, sut y gellir datrys hyn?

## Cwestiwn 6

Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw?

Bod Awdurdodau Lleol, wrth gynllunio ar gyfer addysg Gymraeg a'r defnydd ohoni yn y Gymuned, yn rhannu'r un weledigaeth â Llywodraeth Cymru, ac ymrwmo i dargedau clir a hirdymor er mwyn wireddu'r weledigaeth honno. Mae angen cryfhau gweledigaeth y Llywodraeth a gosod targedau cadarn pell gyrhaeddol i'r awdurdodau lleol yn rhan ohono. Petai hyn y digwydd byddai'r paneli cynllunio Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gallu dylanwadu, cyngori a chreu cynlluniau tipyn mwy pell gyrhaeddol na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd.

## Cwestiwn 7

A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol?

Pwynt sydd yn hollol berthnasol i'r ymgynghoriad hwn ynglŷn â sut i gynllunio ar gyfer twf mewn addysg Gymraeg yw'r angen i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd yn well er mwyn darbwylo rhieni o fudd addysg Gymraeg. Ar hyn o bryd mae'r ymgyrch cenedlaethol i hyrwyddo addysg Gymraeg yn ei hyrwyddo fel "*dewis*" yn unig; credwn fod angen ei hyrwyddo fel dewis sydd yn dod â'r holl fanteision o fod yn ddwyieithog – manteision gwybyddol, academaidd, cymdeithasol a galwedigaethol – er mwyn hysbysu rhieni'n llawn o'r cyfleoedd mae addysg Gymraeg a dwyieithrwydd yn eu cynnig i blant.